

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cefnogi pobl anabl ar ôl COVID-19

Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar bobl anabl yng Nghymru a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i'w cefnogi nhw.



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru y tu hwnt i COVID-19; ymateb Llywodraeth Cymru'**.

Gorffennaf 2021

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

## Gwefan:

[llyw.cymru/fforwm-cydraddoldeb-i-bobl-anabl](http://llyw.cymru/fforwm-cydraddoldeb-i-bobl-anabl)

E-bost: [CangenCydraddoldeb@llyw.cymru](mailto:CangenCydraddoldeb@llyw.cymru)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Sut rydyn ni'n meddwl a siarad am anabledd.....	7
Hawliau Dynol .....	8
Iechyd a Llesiant.....	12
Cymunedau mwy flawd .....	14
Cael eich gadael allan a chael gafael ar wasanaethau	16
Geiriau Anodd.....	20

# Cyflwyniad




Rydyn ni'n deall bod COVID-19 wedi effeithio yn arbennig ar bobl anabl.



Mae wedi dangos mannau lle mae pobl anabl yn dal i wynebu **gwahaniaethu** yng Nghymru.



**Gwahaniaethu** – cael eich trin yn annheg. Er enghraifft, oherwydd hil, oedran, rhywedd neu anabledd.




Fe wnaethom ni ofyn i grŵp o'r enw y **Fforwm Cydraddoldeb Anabledd** edrych ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar bobl anabl.



**Fforwm Cydraddoldeb Anabledd** – grŵp sydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am broblemau sydd yn wynebu pobl anabl.



Fe wnaethon nhw gasglu gwybodaeth gan bobl anabl a chyrrff sydd yn eu cefnogi nhw.



Fe wnaethon nhw ysgrifennu adroddiad o'r enw: **'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru y tu hwnt i COVID-19'**.



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn dweud wrthyn ni beth mae angen inni weithio arno i wella bywydau pobl anabl yng Nghymru.



Mae'r adroddiad yn dweud bod pobl anabl wedi wynebu mwy o **wahaniaethu** yn ystod COVID-19. Yn enwedig :



- Sut rydyn ni'n meddwl ac yn siarad am anabled



- Hawliau dynol



- Iechyd a llesiant



- Cymunedau mwy flawd



- Cael eich gadael allan. A chael gafael ar wasanaethau.



Dyma ein hymateb i'r adroddiad 'Drws ar Glo'. Mae'n dweud wrthy ch chi beth rydyn ni'n gweithio arno yn barod. A'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

# Sut rydyn ni'n meddwl a siarad am anabledd



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn dweud bod rhwystrau weithiau yn ein cymunedau sydd yn stopio pobl anabl rhag gwneud y pethau maen nhw eisiau eu gwneud..



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'r model cymdeithasol o anabledd. Mae hyn yn meddwl:



- Y gefnogaeth gywir ar gael i bobl anabl i allu gwneud y pethau maen nhw eisiau eu gwneud .



- Gwneud lleoedd a gwybodaeth yn hygyrch fel bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i'r pethau maen nhw eisiau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl a chyrrff yn defnyddio geiriau sydd yn helpu ac yn bositif i ddisgrifio pobl anabl.



# Hawliau Dynol



Yn ystod COVID-19 rydyn ni wedi gweithio'n galed i geisio cefnogi **hawliau dynol** pobl.



**Hawliau dynol** – hawliau pob person. Er enghraifft, yr hawl i wneud eich dewisiadau a'ch penderfyniadau eich hun.



Rydyn ni wedi gweithio gyda'r **Fforwm Cydraddoldeb Anabledd** i wrando ar farn pobl anabl am:



- Costau ar gyfer gofal cymdeithasol



- Taliadau Uniongyrchol





- Ynysu cymdeithasol a chysgodi



- Dod allan o'r cyfnod clo



- Profi ac olrhain a gwisgo mygydau wyneb



- Cyngor am COVID-19 i gyrff sydd yn gofalu am bobl



Rydyn ni hefyd yn mynd i gynnwys **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau Pobl Anabl** mewn cyfraith yng Nghymru.



Mae hyn yn dweud wrth wledydd beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i wneud yn siŵr bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn dweud bod yr wybodaeth am COVID-19 wedi bod yn ddryslyd a dim bob amser yn hawdd ei ddeall.



Mae hyn wedi effeithio ar hawliau pobl anabl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau.



Rydyn ni wedi creu **Grŵp Cyfathrebu Hygyrch** yn 2020. Rydyn ni wedi datblygu gwybodaeth am COVID-19 mewn:



- Hawdd ei Ddeall



- Ieithoedd gwahanol



- Iaith arwyddion



Fe fydd y grŵp yma yn parhau i wneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael gwybodaeth glir yn y ffordd gywir.

# Iechyd a Llesiant



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn siarad am effeithiau niweidiol COVID-19 ar iechyd a llesiant pobl.



Rydyn ni wedi bod yn casglu gwybodaeth am sut mae pobl anabl wedi cael eu heffeithio . Rydyn ni eisiau gwybod:



- Pam bod rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o farw o COVID-19, yn cynnwys pobl anabl.



- Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar iechyd meddwl mewn grwpiau gwahanol o bobl yn cynnwys pobl anabl.



Fe fyddwn ni hefyd yn parhau i wneud y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud i:



- Cynyddu arian ar gyfer gwasanaethau **eiriolaeth** yn ystod COVID-19 i gefnogi pobl anabl pan maen nhw ei angen



**Eiriolaeth** – cefnogaeth gan berson arall i'ch helpu chi i ddweud beth rydych chi'n feddwl a sefyll i fyny dros eich hawliau



- Gweithio gydag elusennau iechyd meddwl i wneud yn siŵr bod cefnogaeth i bobl sydd ei angen.



- Gweithio gyda Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol ac Elusennhau i gefnogi pobl sydd wedi bod yn unig ac yn ynysig yn ystod COVID-19.



# Cymunedau mwy flawd



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn siarad am broblemau arian mae pobl anabl wedi eu cael yn ystod COVID-19.



Fe fyddwn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod gan bawb yng Nghymru ddigon o arian i fyw yn ystod y cyfnod yma. Fe fyddwn ni yn:



- Anelu i roi cymorth ychwanegol i bobl ar fudd-daliadau ac incwm isel



- Parhau i gefnogi pobl sydd yn methu gwneud eu gwaith oherwydd COVID-19



- Gweithio i wneud yn siŵr bod gan bobl anabl gartrefi o safon da sydd yn ateb eu hanghenion unigol



- Cefnogi pobl i wneud newidiadau i'w cartrefi sydd yn cefnogi eu iechyd neu anabledd



- Cefnogi rhagor o bobl anabl i ddechrau gweithio a chadw i weithio



- Helpu pobl i gadw'n iach ac yn hapus yn y gwaith



- Parhau i gefnogi busnesau a chyrff sydd â phobl anabl yn gweithio iddyn nhw



- Cefnogi pobl fyddai'n hoffi dechrau eu busnes eu hunain .



# Cael eich gadael allan a chael gafael ar wasanaethau



Mae'r adroddiad 'Drws ar Glo' yn disgrifio sut mae pobl gydag anableddau yn fwy tebygol o fod wedi teimlo'n unig ac ynysig yn ystod COVID-19 oherwydd:



- Mae defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad gyda phobl efallai yn anodd



- Efallai bod rhwystrau i fynd allan ac o gwmpas



- Mae cael yr help a'r cymorth cywir yn gallu bod yn anodd



- Dydy cael gwybodaeth mewn ffordd hygyrch ddim bob amser yn bosibl. Er enghraifft, hawdd ei ddeall neu iaith arwyddion.

## Rydyn ni wedi gweithio'n galed i gefnogi pobl sydd yn debygol o deimlo'n unig ac ynysig. Rydyn ni wedi:



- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w hatgoffa nhw bod rhaid i newidiadau i strydoedd a lleoedd cyhoeddus gefnogi pobl anabl



- Dechrau grŵp gweithio Bws i edrych ar y problemau y mae pobl anabl yn gallu eu cael wrth ddefnyddio bysus yn ystod COVID-19. Er enghraifft, cadw pellter cymdeithasol



- Cynyddu a gwella ein gwasanaeth Cymorth i Deithwyr sydd yn cefnogi pobl anabl sydd eisiau teithio ar y trennau



- Gwneud cynllun ar gyfer unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng Nghymru



- Rhoi arian ychwanegol i elusennau a chyrrff sydd yn cefnogi pobl gydag anableddau



## Rydyn ni hefyd yn bwriadu:



- Cynnwys rhagor o bobl anabl yn ein gwaith a dysgu oddi wrth eu profiadau nhw



- Cefnogi pobl anabl i ddysgu sgiliau mewn defnyddio technoleg os ydyn nhw eisiau



- Gweithio gyda'r Grŵp Cyngori Unigrwydd ac Ynysigrwydd i feddwl am beth sydd yn gallu cael ei wneud i helpu pobl anabl sydd yn unig



- Gwneud yn siŵr bod y cymorth cywir ar gael a'i fod yn hygyrch i bobl gydag anableddau sydd yn poeni am ddod allan o'r cyfnod clo




- Gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth ar gael ac yn hygyrch i bobl gydag anableddau



- Parhau i annog pobl anabl i gymryd rhan yn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol



- Gwella ein hyfforddiant i'n staff ni am drin pobl yn gyfartal ac yn deg



- Parhau i wneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n gweithio i gefnogi pobl anabl i gael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth.

# Geiriau Anodd

## Eiriolaeth

Cymorth gan berson arall i'ch helpu chi i ddweud beth rydych chi'n feddwl a sefyll i fyny dros eich hawliau.

## Fforwm Cydraddoldeb Anabledd

Grŵp sydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am y problemau mae pobl anabl yn eu wynebu

## Gwahaniaethu

Cael eich trin yn annheg. Er enghraifft oherwydd hil, oedran, rhywedd neu anabledd.

## Hawliau dynol

Hawliau pob person. Er enghraifft, yr hawl i wneud eich dewisiadau a'ch penderfyniadau eich hun.